CANLLAWIAU

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir

Canllawiau ar sut i lenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir (TTT) gan ddefnyddio gwasanaethau Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 Chwefror 2019

Diweddarwyd ddiwethaf: 3 Gorffennaf 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r asiant

Enw a chyfeiriad yr asiant (sefydliad)

Cyfeirnod yr asiant (dewisol)

Enw a manylion cyswllt yr asiant

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r prynwr (unigolion)

Ynglŷn â'r asiant

Lle nad oes ymddiriedolaethau'n gysylltiedig

Teitl

Enw cyntaf y prynwr

Cyfenw'r prynwr

Cyfeiriad y prynwr

Dyddiad geni'r prynwr

Rhif ffôn y prynwyr

Cyfeiriad e-bost y prynwr

Rhif Yswiriant Cenedlaethol y Prynwr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dulliau adnabod eraill

A yw'r prynwr yn gweithredu fel ymddiriedolwr?

A oes cysylltiad rhwng y prynwr a'r gwerthwr?

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r prynwr (sefydliadau)

Pan fydd ymddiriedolaethau'n gysylltiedig

Pan nad oes ymddiriedolaethau'n gysylltiedig

Enw'r sefydliad

Enw masnachu'r sefydliad

Cyfeiriad y Sefydliad

A yw'r cwmni wedi'i leoli yn y DU?

Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau, os yn berthnasol

Rhif TAW os yw hynny'n berthnasol

Dulliau adnabod eraill

A yw'r prynwr yn gweithredu fel ymddiriedolwr?

A oes cysylltiad rhwng y prynwr a'r gwerthwr?

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r gwerthwr (unigolion)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Teitl

Enw cyntaf y gwerthwr

Cyfenw’r gwerthwr

Cyfeiriad y gwerthwr

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r gwerthwr (sefydliadau)

Enw’r sefydliad

Enw masnachu’r sefydliad

Cyfeiriad y sefydliad

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn ag asiant y gwerthwr

Enw asiant y gwerthwr

Cyfeiriad asiant y gwerthwr

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â’r tir

Cyfeiriad y tir sy'n cael ei brynu

Disgrifiad o leoliad y tir

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Awdurdod lleol

Cyfeirnod unigryw’r eiddo

Rhif y teitl

A yw hwn yn drafodiad croes-deitl Cymru-Lloegr?

Cyfanswm y gydnabyddiaeth am y teitl yn ei gyfanrwydd

A yw hwn yn dir amaethyddol neu ddatblygu?

Beth yw arwynebedd y tir?

A oes unrhyw fwynau neu hawliau mwynau wedi'u cadw yn ôl yng ngweithredoedd y teitl?

A oes unrhyw dir yn cael ei gyfnewid neu ei ran-gyfnewid?

Cyfeiriad rhan tir sydd wedi'i ran-gyfnewid

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r trafodiad

Pa fath o drafodiad trethadwy yw hwn?

Pam fod yr eiddo'n amhreswyl / pam fod rhan o'r eiddo’n amhreswyl (defnydd cymysg)?

A ydych yn rhagweld adhawlio’r gyfradd uwch o fewn 3 blynedd ar y trafodiad hwn?

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam eich bod yn talu'r tâl cyfradd uwch?

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Pa fath o drafodiad yw hwn?

A yw cyfanswm y gydnabyddiaeth ar gyfer y trafodiad yn cynnwys TAW?

Beth yw'r buddiant sy'n cael ei drosglwyddo neu ei greu?

A oes unrhyw gyfyngiadau, cyfamodau neu amodau sy'n effeithio ar werth y buddiant sy’n cael ei drosglwyddo neu ei ganiatáu?

A yw'r trafodiad yn unol â chytundeb opsiwn blaenorol?

Oes gennych chi opiniwn treth ACC ar gyfer y trafodiad hwn?

A yw'r trafodiad hwn yn rhan o nifer o drafodiadau eraill mewn mannau eraill yn y DU, ond y tu allan i Gymru?

A yw’r trafodiad yn gysylltiedig ag unrhyw drafodiadau eraill?

Beth yw cyfanswm y gydnabyddiaeth neu'r gwerth mewn arian neu gyfwerth ariannol, gan gynnwys y TAW a dalwyd ond heb gynnwys rhent, ar gyfer yr holl drafodiadau cysylltiol?

Beth yw Cyfeirnod Unigryw Trafodiad (CUT/UTRN) y trafodiadau cysylltiol?

Beth yw cyfanswm gwerth presennol net (NPV) y rhent taladwy dros gyfnodau’r holl lesoedd cysylltiol i’r bunt agosaf?

A oes unrhyw ran o’r gydnabyddiaeth, heblaw rhent, yn dibynnu ar ddigwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol, neu’n amodol arnynt?

Ydych chi wedi cytuno ag ACC y byddwch yn talu ar sail ohiriedig?

A yw’r ffurflen hon yn ffurflen ychwanegol at drafodiad blaenorol?

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Os ydych chi wedi llenwi ffurflen flaenorol ar gyfer y trafodiad, rhowch CUT y ffurflenni hynny

Nodwch pam bod angen ffurflen arall

Cyfanswm y TAW sydd wedi'i thalu

Beth yw ffurf y gydnabyddiaeth?

A yw'r trafodiad hwn yn rhan o werthiant busnes?

A yw'r trafodiad hwn yn cynnwys materion nad ydynt yn drethadwy dan y Dreth Trafodiadau Tir?

Nodwch unrhyw fater nad yw'n drethadwy dan y Dreth Trafodiadau Tir

Swm y gydnabyddiaeth a roddwyd yr ydych wedi'i neilltuo i faterion heblaw am y trafodiad tir

---

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r cyfrifiad (lle mae les yn gysylltiedig)

Beth yw dyddiad cychwyn y les?

Beth yw dyddiad terfynu'r les?

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r cyfrifiad (lle mae les amhreswyl yn gysylltiedig)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Beth yw cyfnod y les (blynyddoedd)?

Blwyddyn rhent 1

Blwyddyn rhent 2

Blwyddyn rhent 3

Blwyddyn rent 4

Blwyddyn rent 5

Rhent perthnasol

Rhent uchaf sy’n daladwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn olynol yn y pum mlynedd gyntaf

Beth yw'r gwerth presennol net?

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: ynglŷn â'r cyfrifiad (pob trafodiad)

Beth yw dyddiad y contract?

Beth yw dyddiad dod i rym y trafodiad?

Ydych chi'n hawlio rhyddhad treth?

Pa ryddhad treth ydych chi’n ei hawlio?

A yw rhyddhad yn cael ei hawlio ar ran o'r trafodiad yn unig?

Rhowch y swm sy’n ar ôl yn drethadwy

Faint o anheddau sy’n cael eu prynu?

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Beth yw’r gydnabyddiaeth drethadwy a roddwyd am yr anheddau a brynwyd?

A oes unrhyw un o’r anheddau a brynwyd yn is-anheddau?

Faint o’r anheddau sy’n is-anheddau?

Beth yw’r gydnabyddiaeth drethadwy a roddwyd am yr is-annedd/ is-anheddau?

A yw’r trafodiad yn cynnwys unrhyw dir arall, megis tir amhreswyl?

Beth yw'r gydnabyddiaeth drethadwy a roddwyd am y tir arall?

Beth yw cyfanswm y gydnabyddiaeth mewn arian neu gyfwerth ariannol, gan gynnwys unrhyw TAW sy'n daladwy mewn gwirionedd, ar gyfer y trafodiad (gan gynnwys unrhyw bremiwm)?

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen Treth Trafodiadau Tir: cyfrifo treth

---

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynglŷn â'r asiant

Enw a chyfeiriad yr asiant (sefydliad)

Mae hwn wedi'i lenwi'n barod gyda'r wybodaeth a ddarparoch chi wrth gofrestru. I newid hyn, **cysylltwch â ni**.

Cyfeirnod yr asiant (dewisol)

Dyma eich cyfeirnod chi. Os yw'r cyfeirnod yn hirach na'r lle sydd ar gael defnyddiwch dalfyriadau.

Enw a manylion cyswllt yr asiant

Rhowch fanylion yr asiant y byddem yn cysylltu â nhw petai gennym unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ffurflen hon.

Gyda'r manylion hyn, gallwn sicrhau bod ein data'n gywir. Gallwn gysylltu'n gyflym gyda'r person cywir ar yr adeg iawn er mwyn datrys ymholiadau gan osgoi uwchgyfeirio a allai arwain at godi cosbau a llog ar y trethdalwr.

Rhowch eu henw, eu rhif ffôn uniongyrchol, a'u cyfeiriad e-bost (dewisol).

Ynglŷn â'r prynwr (unigolion)

Ynglŷn â'r asiant

- Os yw'r prynwr yn gweithredu ar ran ymddiriedolaeth noeth, rhowch fanylion

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

y buddiolwr.
- Os yw'r prynwr yn gweithredu fel unrhyw fath arall o ymddiriedolaeth (er enghraifft, setliad), rhowch fanylion yr ymddiriedolwyr.
- Os nad yw'r buddiolwr neu'r ymddiriedolwr yn unigolyn/grŵp o unigolion, neu os yw'r ymddiriedolaeth wedi'i chofrestru gyda CThEM, rhaid i chi beidio â chwblhau'r adran hon.

Rhagor o ganllawiau ar ymddiriedolaethau

Lle nad oes ymddiriedolaethau'n gysylltiedig

Os nad yw'r prynwr yn unigolyn/grŵp o unigolion, rhaid i chi beidio â chwblhau'r adran hon

Gallwch ddewis prynwyr ychwanegol o dudalen grynodeb y ffurflen dreth ddrafft.

Teitl

Os nad yw'r teitl priodol yn cael ei ddangos fel opsiwn, gallwch lenwi'r blwch 'Arall (nodwch)'. Os nad yw'r teitl priodol yn ffitio yn y blwch hwn, defnyddiwch dalfyriadau. Er enghraifft, gallwch ddangos Capten fel Capt.

Enw cyntaf y prynwr

Rhowch enw cyntaf y prynwr. Gallwch roi enw canol hefyd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfenw’r prynwr

Rhowch gyfenw’r prynwr.

Cyfeiriad y prynwr

Rhowch brif gartref y prynwr o’r dyddiad y mae’r trafodiad yn dod i rym.

Defnyddiwch ‘chwilio cyfeiriad’ i ddod o hyd i’ch eiddo fel bod gennym ddata cywir. Os na allwch chi ddod o hyd i’r cyfeiriad drwy ‘chwilio cyfeiriad’, gallwch ei roi i mewn eich hun.

Dyddiad geni’r prynwr

Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiwn hwn.

Rhowch ddyddiad geni'r prynwr, gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb. Er enghraifft, ‘28/06/1979’.

Rhif ffôn y prynwyr

Rhowch rif ffôn y prynwr yn ystod y dydd gan gynnwys y cod ardal.

Gallwch roi rhif ffôn symudol os yw’n haws defnyddio hwn i gysylltu â'r prynwr.

Os oes mwy nag un prynwr a'u bod yn rhannu'r un rhif ffôn, rhowch y rhif hwn ar gyfer pob prynwr yn adran manylion cyswllt y prynwr.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfeiriad e-bost y prynwr

Rhowch gyfeiriad e-bost y prynwr.

Os oes mwy nag un prynwr sy'n rhannu'r un cyfeiriad e-bost, rhowch yr un cyfeiriad e-bost ar gyfer pob prynwr / yn adran manylion y prynwr.

Os byddwch yn canfod:

- nad oes gan y prynwr gyfeiriad e-bost ond y gall ddefnyddio cyfrif e-bost cynorthwyydd dibynadwy (fel ffrind neu aelod o'r teulu), gellir defnyddio hwn gyda'u caniatâd
- nad oes gan y prynwr gyfeiriad e-bost na mynediad at gyfeiriad e-bost, **cysylltwch â ni** am fwy o wybodaeth

Rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio e-bost i ohebu am dreth.

Rhif Yswiriant Cenedlaethol y Prynwr

Mae'n rhaid i chi ateb y cwestiwn hwn os yw'r prynwr yn unigolyn sydd â rhif Yswiriant Gwladol parhaol.

Rhowch y rhif Yswiriant Gwladol cywir ar gyfer y prynwr. Bydd rhif Yswiriant Gwladol yn edrych yn debyg i hyn 'QQ 12 34 56 A'. Mae hwn i'w gael ar slipiau cyflog gan gyflogwr, neu unrhyw lythyr oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Byd Gwaith.

Peidiwch â defnyddio rhif Yswiriant Gwladol dros dro (mae'r rhain bob amser yn dechrau gyda 'TN').

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dulliau adnabod eraill

Dewiswch y rhif adnabod sydd gennych chi neu dewiswch ‘Arall’ a llenwi’r blwch ‘Arall (nodwch)’ i ddweud wrthym i ba fath o ddull adnabod mae eich cyfeirnod/ rhif adnabod yn berthnasol.

Rhowch y cyfeirnod adnabod o’r dull o adnabod rydych chi’n ei ddefnyddio:

- ar gyfer pasbortau, trwyddedau gyrru, a Chardiau Adnabod, os ydynt wedi’u cyhoeddi yn y DU, mae’r cyfeirnod i'w weld ar eich pasbort, eich trwydded yrru neu eich Cerdyn Adnabod
- ar gyfer Cyfeirnodau Treth Unigryw, os ydynt wedi cael eu rhoi yn y DU, bydd ganddynt 10 digid a byddant i'w gweld ar ohebiaeth gan CThEM neu yng nghyfrif ar-lein y prynwr gyda CThEM

Rhaid i chi hefyd ddangos pa wlad a roddodd y dull adnabod i chi yn y blwch 'Gwlad y cofrestriad’.

A yw'r prynwr yn gweithredu fel ymddiriedolwr?

Os yw'r buddiant mewn tir yn cael ei gaffael ar ymddiriedaeth a bod y prynwr yn ymddiriedolwr neu'n un o sawl ymddiriedolwr, atebwch ‘Ydy’. Atebwch ‘Nac ydy' ym mhob achos arall.

Sut mae TTT yn berthnasol gyda buddiannau mewn ymddiriedolaethau

A oes cysylltiad rhwng y prynwr a’r gwerthwr?

Mae'r diffiniad o ‘gysylltiad’ i’w weld yn adran 1122 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010. Mae enghreifftiau o bersonau cysylltiedig yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i’r rhain:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- gŵr, gwraig neu bartner sifil
- brawd neu chwaer, ei hynafiaid a'i d/ddisgynyddion uniongyrchol
- partneriaid busnes a'u perthnasau
- person a chwmni y maent yn eu rheoli
- 2 gwmni sy'n cael eu rheoli gan yr un person

Gweler y Ddeddf Treth Gorfforaeth

Rhagor o ganllawiau ar drafodiadau cysylltiol

Atebwch 'Oes' os yw'r prynwr yn gysylltiedig â'r gwerthwr mewn unrhyw ffordd a ddiffinnir yn adran 1122 o Ddeddf Treth Gorfforaeth (CTA) 2010. Fel arall, ateb 'Nac oes'.

Ynglŷn â'r prynwr (sefydliadau)

Pan fydd ymddiriedolaethau'n gysylltiedig

- Os yw'r prynwr yn gweithredu ar ran ymddiriedolaeth noeth, yna rhowch fanylion y buddiolwr.
- Os yw'r prynwr yn gweithredu fel unrhyw fath arall o ymddiriedaeth (er enghraifft, setliad), rhowch fanylion yr ymddiriedolwyr.
- Os nad yw'r buddiolwr neu'r ymddiriedolwr yn unigolyn/grŵp o unigolion, rhaid i chi gwblhau'r adran hon.
- Os yw'r ymddiriedolaeth wedi'i chofrestru, rhowch enw'r ymddiriedolaeth a rhif Cyfeirnod Unigryw Treth yr ymddiriedolaeth (fel y'i rhoddwyd gan CThEM). Os nad yw'r ymddiriedolaeth wedi'i chofrestru, peidiwch â llenwi'r adran hon; dewiswch Unigolyn.

Rhagor o ganllawiau ar ymddiriedolaethau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Pan nad oes ymddiriedolaethau'n gysylltiedig

Os nad yw'r prynwr yn unigolyn/grŵp o unigolion, rhaid i chi lenwi'r adran hon.

Gallwch ddewis prynwyr ychwanegol oddi ar dudalen grynodeb y ffurflen ddrafft.

Enw'r sefydliad

Rhowch enw cyfreithiol cofrestredig y prynwr.

Os yw enw'r prynwr yn hirach na'r lle sydd ar gael, defnyddiwch dalfyriadau.

Enw masnachu'r sefydliad

Rhaid i chi ateb y cwestiwn hwn os yw'r enw masnachu yn wahanol i'r enw cyfreithiol. Rhowch enw masnachu'r prynwr.

Os oes gan y prynwr fwy nag un enw masnachu, rhowch yr enw masnachu sy'n cael ei ystyried yr un sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf neu sy'n fwyaf adnabyddus.

Os yw'r enw masnachu'n hirach na'r lle sydd ar gael, defnyddiwch dalfyriadau.

Cyfeiriad y Sefydliad

Rhowch y cyfeiriad lle gallwn ysgrifennu at y prynwr ar ôl y dyddiad y daw'r trafodiad tir i rym.

Defnyddiwch 'chwilio cyfeiriad' i ddod o hyd i'ch eiddo fel bod gennym ddata cywir. Os na allwch chi ddod o hyd i'r cyfeiriad drwy 'chwilio cyfeiriad', gallwch ei

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

roi i mewn eich hun.

A yw'r cwmni wedi'i leoli yn y DU?

Atebwch ‘Ydw’ os yw'r canlynol yn berthnasol i'r sefydliad:

- mae wedi'i leoli yn y DU yn unig
- mae ei brif swyddfa yn y DU
- mae ganddo sefydliad parhaol arall (fel y'i diffinnir at ddibenion treth y DU yn adrannau 1141 a 1142 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010) yn y DU

Ym mhob achos arall, atebwch ‘Nac ydy’.

Rhagor o wybodaeth am adrannau 1141 a 1142 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010

Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau, os yn berthnasol

Os yw'r sefydliad wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, rhowch Rif Cofrestru'r Cwmni.

Mae'r rhif hwn ar eich tystysgrif ymgorffori neu unrhyw ddogfen arall y mae Tŷ'r Cwmnïau wedi’i hanfon atoch chi.

Bydd Rhif Cofrestru Cwmni yn gyfuniad o 8 rhif, neu 2 lythyren ac yna 6 rhif. Er enghraifft, 12345678 neu AB123456.

Rhif TAW os yw hynny’n berthnasol

Rhowch y rhif cofrestru TAW. Gwnewch yn siŵr bod y rhif a roddir gennych chi’n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

rhif cofrestru TAW dilys.

Dylai fod yn 9 digid; er enghraifft, ‘123 4567 89’ a dim nodau alffa. Ni fydd yn dechrau gyda 0. Gallwch ddod o hyd i'r rhif hwn ar Dystysgrif Gofrestru TAW eich cleient neu ar anfonebau y maent yn eu hanfon.

Dulliau adnabod eraill

Os nad oes gan y sefydliad rif TAW neu rif Dŷ'r Cwmnïau, gallwch ddarparu dull gwahanol o adnabod.

Os yw’r prynwr yn fusnes yn gweithredu yn y DU, bydd CThEM wedi darparu’r Cyfeirnod Treth Unigryw a Chyfeirnod Treth Unigryw’r Bartneriaeth / Ymddiriedolaeth. Bydd y rhain yn 10 digid. Bydd y cyfeirnodau hyn ar gael ar ohebiaeth oddi wrth CThEM, neu drwy fewngofnodi i gyfrif ar-lein y prynwr gyda CThEM.

Os yw’r prynwr yn elusen gofrestredig yn y DU, bydd Rhif Cofrestru’r Elusen ar gael ar Dystysgrif Cofrestru Elusen y prynwr, neu gallwch **chwilio'r gofrestr elusennau ar GOV.UK**.

Os nad yw’r prynwr wedi’i leoli yn y DU, rhowch gyfeirnod y tu allan i’r DU a nodi pa wlad a roddodd y cyfeirnod.

A yw'r prynwr yn gweithredu fel ymddiriedolwr?

Os yw’r buddiant mewn tir yn cael ei gaffael ar ymddiriedaeth a'r prynwr yn ymddiriedolwr neu’n un o sawl ymddiriedolwr, atebwch ‘Ydy’. Atebwch ‘Nac ydy’ ym mhob achos arall.

Sut mae TTT yn berthnasol pan fydd buddiannau mewn ymddiriedolaethau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

A oes cysylltiad rhwng y prynwr a’r gwerthwr?

Mae'r diffiniad o ‘gysylltiad’ ar gael yn adran 1122 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010. Mae enghreifftiau o bersonau cysylltiedig yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i’r rhain:

- gŵr, gwraig neu bartner sifil
- brawd neu chwaer, ei hynafiaid a'i d/ddisgynyddion uniongyrchol
- partneriaid busnes a'u perthnasau
- person a chwmni y maent yn eu rheoli
- 2 gwmni sy’n cael eu rheoli gan yr un person

Atebwch ‘Oes’ os yw’r prynwr yn gysylltiedig â’r gwerthwr mewn unrhyw ffordd a ddiffinnir yn adran 1122 o Ddeddf Treth Gorfforaeth (CTA) 2010. Fel arall, ateb 'Nac oes'.

Rhagor o ganllawiau am drafodiadau cysylltiol

Gweler y Ddeddf Treth Gorfforaeth

Ynglŷn â'r gwerthwr (unigolion)

Gallwch ychwanegu gwerthwyr ychwanegol drwy ddychwelyd i dudalen grynodeb eich ffurflen ddrafft a dewis ‘ychwanegu gwerthwr arall’.

Teitl

Os nad yw'r teitl priodol yn cael ei ddangos fel opsiwn, gallwch lenwi'r blwch ‘Arall (nodwch)’.

Os nad yw'r teitl priodol yn ffitio yn y blwch hwn, defnyddiwch dalfyriadau. Er

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

enghraifft, gallwch ddangos Capten fel Capt.

Enw cyntaf y gwerthwr

Rhowch enw cyntaf y gwerthwr. Gallwch roi enw canol hefyd.

Cyfenw’r gwerthwr

Rhowch gyfenw’r gwerthwr.

Cyfeiriad y gwerthwr

Dyma brif gartref y prynwr o’r dyddiad y mae’r trafodiad yn dod i rym.

Ynglŷn â'r gwerthwr (sefydliadau)

Enw’r sefydliad

Rhowch enw cyfreithiol cofrestredig y gwerthwr.

Os yw enw'r prynwr yn hirach na’r lle sydd ar gael, defnyddiwch dalfyriadau.

Enw masnachu’r sefydliad

Rhowch enw masnachu'r gwerthwr. Os oes gan y prynwr fwy nag un enw masnachu, rhowch yr enw masnachu sy’n cael ei ystyried yr un sy’n cael ei

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddefnyddio fwyaf neu sy’n fwyaf adnabyddus.

Os yw’r enw masnachu’n hirach na'r lle sydd ar gael, defnyddiwch dalfyriadau.

Cyfeiriad y sefydliad

Rhowch y cyfeiriad lle gallwn ysgrifennu at y prynwr ar ôl y dyddiad y daw’r trafodiad tir i rym.

Defnyddiwch ‘chwilio cyfeiriad’ i ddod o hyd i’ch eiddo fel bod gennym ddata cywir. Os na allwch chi ddod o hyd i’r cyfeiriad drwy ‘chwilio cyfeiriad’, gallwch ei roi i mewn eich hun.

Ynglŷn ag asiant y gwerthwr

Enw asiant y gwerthwr

Rhowch enw'r cyfreithiwr neu berson arall sy'n gweithredu fel asiant ar ran y gwerthwr.

Os yw enw’r asiant yn hirach na'r lle sydd ar gael defnyddiwch dalfyriadau.

Cyfeiriad asiant y gwerthwr

Defnyddiwch ‘chwilio cyfeiriad’ i ddod o hyd i’ch eiddo fel bod gennym ddata cywir. Os na allwch chi ddod o hyd i’r cyfeiriad drwy ‘chwilio cyfeiriad’, gallwch ei roi i mewn eich hun.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynglŷn â'r tir

Gallwch ychwanegu parseli ychwanegol o dir drwy ddychwelyd i'r sgrin grynodeb ar gyfer pob ffurflen ddrafft.

Cyfeiriad y tir sy'n cael ei brynu

Defnyddiwch 'chwilio cyfeiriad' i ddod o hyd i'ch eiddo fel bod gennym ddata cywir. Os na allwch chi ddod o hyd i'r cyfeiriad drwy 'chwilio cyfeiriad', gallwch ei roi i mewn eich hun.

Disgrifiad o leoliad y tir

Os nad oes gan y tir gyfeiriad post, dylech roi disgrifiad o ble mae'r tir wedi'i leoli mewn perthynas â nodweddion amlwg cyfagos.

Os nad oes cyfeiriad post, rhaid i chi roi cynllun o'r tir i'r Swyddfa Brisio. Rhaid i'r cynllun gynnwys y dimensiynau a disgrifiad llawn o'r ffiniau, a Chyfeirnod Unigryw y Trafodiad (CUT/UTRN) byddwn yn ei roi i chi. Gallwch anfon yr wybodaeth hon yn electronig at Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn **sdlt@voa.gov.uk**

Awdurdod lleol

Rhowch enw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r tir wedi'i leoli. Rhaid i chi roi'r awdurdod lleol priodol o'r rhestr.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfeirnod unigryw’r eiddo

Bydd hwn yn cael ei lenwi’n awtomatig pan fyddwch yn dewis cyfeiriad gan ddefnyddio’r chwiliwr cod post. Os byddwch wedi rhoi’r cyfeiriad i mewn eich hun, bydd angen i chi wneud yr un peth wrth roi Cyfeirnod Unigryw yr Eiddo.

Rhif y teitl

Os yw'r eiddo wedi'i gofrestru, rhowch rif y teitl.

Os oes mwy nag un teitl yn berthnasol i wahanol rannau o'r eiddo, rhowch bob un o’r teitlau yma.

A yw hwn yn drafodiad croes-deitl Cymru-Lloegr?

Os yw'r darn tir i gyd a’i ffiniau wedi’u lleoli’n gyfan gwbl yng Nghymru, atebwch ‘Nac ydy’. Os oes rhan o'r tir a’i ffiniau yng Nghymru a rhan ohono yn Lloegr (ni waeth pa mor fach yw’r rhan honno), atebwch ‘Ydy’.

Efallai y byddwch am ddefnyddio ein gwiriwr i **weld a yw cod post wedi ei leoli yng Nghymru ar gyfer TTT**.

Rhagor o ganllawiau ynglŷn â thrafodiadau traws deitl

Cyfanswm y gydnabyddiaeth am y teitl yn ei gyfanrwydd

Os yw hwn yn drafodiad croes-deitl, rhowch gyfanswm y gydnabyddiaeth sy’n cael ei wneud am gyfanswm y teitlau, gan gynnwys y rhannau yng Nghymru ac

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yn Lloegr.

Dylai'r swm y byddwch yn ei nodi fel cydnabyddiaeth gynnwys y canlynol lle bo'n briodol:

- cyfanswm y gydnabyddiaeth mewn arian neu gyfwerth ariannol a roddwyd gan y prynwr ym mha ffurf bynnag am y tir neu'r eiddo
- cyfanswm y gydnabyddiaeth a roddwyd am yr aseiniad
- unrhyw bremiwm
- os oes gofyniad cyfreithiol i dalu TTT ar y gwerth marchnadol, rhowch y gwerth marchnadol
- unrhyw TAW sydd i'w thalu

Os oes les yn gysylltiedig â'r trafodiad, ni ddylai'r gydnabyddiaeth gynnwys rhent.

Rhowch y swm wedi'i dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

A yw hwn yn dir amaethyddol neu ddatblygu?

Tir amaethyddol yw tir a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion amaethyddol; er enghraifft, magu da byw, tyfu cnydau, neu debyg.

Tir datblygu yw tir mae'r prynwr yn ei brynu i'w ddatblygu at ddibenion preswyl, masnachol neu beirianneg sifil. Does dim angen cael caniatâd cynllunio.

Os yw'r tir yn cyfateb i'r naill ddiffiniad neu'r llall, atebwch 'Ydy'.

Ym mhob achos arall, atebwch 'Nac ydy'.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Beth yw arwynebedd y tir?

Os yw'r trafodiad yn ymwneud â thir amaethyddol neu dir datblygu, rhaid i chi nodi'r arwynebedd. Dewiswch naill ai fetrau sgwâr neu hectarau. Peidiwch â defnyddio unrhyw uned fesur arall.

- Os ydych yn rhoi metrau sgwâr, rhowch rif cyfan wedi'i dalgrynnu i lawr i'r metr sgwâr agosaf.
- Os ydych yn rhoi hectarau, talgrynnwch i lawr i'r 2 le degol agosaf.

A oes unrhyw fwynau neu hawliau mwynau wedi'u cadw yn ôl yng ngweithredoedd y teitl?

Os oes unrhyw fwynau neu hawliau mwynau wedi'u cadw yn ôl, bydd yn cael ei ddangos ar weithredoedd y teitl. Os oes hawliau o'r fath yn bodoli, atebwch 'Oes', ni waeth pwy sy'n dal yr hawliau hynny.

Fel arall, atebwch 'Nac oes'.

A oes unrhyw dir yn cael ei gyfnewid neu ei ran-gyfnewid?

Os oes tir yn rhan o'r gydnabyddiaeth rhwng y prynwr a'r gwerthwr, atebwch 'Oes'. Fel arall, atebwch 'Nac oes'.

Cyfeiriad rhan tir sydd wedi'i ran-gyfnewid

Os yw'r tir yn cael ei gyfnewid, rhowch gyfeiriad post y tir a gafodd ei ran-

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfnewid.

Ynglŷn â'r trafodiad

Pa fath o drafodiad trethadwy yw hwn?

Bydd angen i chi ddewis os yw'r trafodiad yn un:

- preswyl (prif gyfraddau a chyfraddau uwch)
- amhreswyl
- defnydd cymysg

Rhagor o ganllawiau am drafodiad sy'n destun cyfraddau uwch

Efallai y byddwch am ddefnyddio ein hofferyn i **wirio a yw trafodiad yn destun cyfraddau uwch TTT**.

A: ‘Preswyl’ (prif gyfraddau a chyfraddau uwch)

Os yw'r trafodiad yn cynnwys:

- adeilad a ddefnyddir fel un annedd neu ragor, neu sy’n addas i’w ddefnyddio felly, neu sydd yn y broses o gael ei godi neu ei addasu i’w ddefnyddio felly
- tir sy’n ardd neu’n diroedd, neu’n ffurfio rhan o ardd neu diroedd adeilad a ddisgrifir uchod
- buddiant mewn tir neu hawl dros dir sy’n bodoli er budd adeilad o’r fath neu ei diroedd (er enghraifft hawl tramwy i fynd i'r annedd)

Os dewisir ‘Preswyl (prif gyfraddau a chyfraddau uwch)’ a bod y prynwr yn unigolyn, dewiswch a yw hwn yn eiddo preswyl cyfraddau uwch (e.e. ail gartrefi / prynu i osod, ac ati) oherwydd bod:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- y prynwr / un o'r prynwyr eisoes yn dal prif fuddiant mewn eiddo arall, neu fod
- y prynwr yn gwmni cyfyngedig, neu fod
- y trafodiad yn destun y cyfraddau uwch am ryw reswm arall

Os ydych wedi dewis na, byddwch yn gallu mynd ymlaen i'r adran nesaf a bydd 'prif gyfraddau' yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo.

Os ydych yn dewis 'Ydy', bydd 'cyfraddau preswyl uwch' yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo. Nodwch a ydych yn rhagweld adhawlio'r gyfradd uwch o fewn y 3 blynedd nesaf ar y trafodiad hwn.

Os ydych yn dewis 'Preswyl (prif gyfraddau a chyfraddau uwch)' a bod y prynwr yn cynnwys sefydliad bydd angen i chi ddewis a yw'r eiddo'n cynnwys annedd.

Pan fydd sefydliad yn prynu annedd fel arfer bydd yn rhaid iddo dalu cyfraddau uwch, hyd yn oed os nad yw'n berchen ar unrhyw anheddau eraill.

B: 'Amhreswyl'

Os nad yw'r eiddo cyfan yn cyfateb i'r diffiniad uchod o 'breswyl'.

C: 'Defnydd cymysg'

Os mai dim ond rhan o'r eiddo sy'n cyfateb i'r diffiniad uchod o 'breswyl'.

Pam fod yr eiddo'n amhreswyl / pam fod rhan o'r eiddo'n amhreswyl (defnydd cymysg)?

Os ydych wedi dewis 'Amhreswyl' neu 'Ddefnydd cymysg' ar gyfer y cwestiwn blaenorol, rhaid i chi ateb ar gyfer y cwestiwn hwn pam fod yr eiddo cyfan neu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ran ohono yn amhreswyl o'r rhestr a ddarparwyd.

Os ydych wedi dewis ‘Arall’, nodwch y math o eiddo amhreswyl.

A ydych yn rhagweld adhawlio’r gyfradd uwch o fewn 3 blynedd ar y trafodiad hwn?

Os ydych wedi dewis 'Preswyl cyfradd uwch' rhaid i chi ateb y cwestiwn hwn. O dan rai amgylchiadau, gallwch hawlio'n ôl elfen gyfradd uwch y dreth a dalwyd gennych ar y trafodiad hwn.

Rhagor o ganllawiau ar gyfraddau uwch ar gyfer prynu eiddo preswyl

Os yw'r prynwr yn disgwyl hawlio'r elfen cyfradd uwch o'r dreth rydych chi wedi'i thalu yn ôl rywbryd yn y dyfodol (yn ddarostyngedig i’r **terfynau amser y cyfeirir atynt yn y canllawiau**), dylech ateb ‘Ydw’.

Fel arall, atebwch 'Nac oes’.

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam eich bod yn talu'r tâl cyfradd uwch?

Bydd cyfraddau uwch yn daladwy ar y rhan fwyaf o bryniannau anheddau a wneir rai nad ydynt yn unigolion.

Dylid defnyddio'r diffiniadau canlynol i benderfynu pa reswm sy'n disgrifio orau pam fod y pryniant yn cael ei wneud.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

A: Ar gyfer unigolion

Pontio neu ddim wedi gwerthu prif breswylfa flaenorol

Dewiswch yr opsiwn hwn os yw'r prynwr yn bwriadu i'r annedd a brynwyd fod yn brif breswylfa iddynt ond eu bod yn dal i fod yn berchen ar eu prif breswylfa gyfredol.

Byddant yn gallu gwneud cais am ad-daliad y dreth cyfradd uwch os:

- ydynt yn gwaredu eu prif breswylfa flaenorol o fewn 3 blynedd, ac
- mae'r holl amodau perthnasol yn cael eu bodloni yn unol â'r **canllawiau o dan DTTT/8120**

B Ar gyfer rhai nad ydynt yn unigolion

Defnydd masnach neu fusnes (heb gynnwys prynu-i-osod neu lety gwyliau)

Dewiswch yr opsiwn hwn os yw'r prynwr yn bwriadu defnyddio'r annedd mewn perthynas â busnes neu fasnach. Nid yw hyn yn cynnwys:

- annedd prynu-i-osod, y dylid ei gofnodi o dan 'Landlord Prynu-i-Osod'
- llety gwyliau, y dylid ei gofnodi o dan 'Prynu llety gwyliau'

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

C Ar gyfer pob prynwr

Landlord prynu-i-osod

Dewiswch yr opsiwn hwn os:

- yw'r prynwr yn bwriadu gosod yr annedd hon ar sail cyfnod penodol neu gontract cyfnodol, a/neu
- mae ganddynt forgais prynu-i-osod

Prynu ail gartref neu gartref gwyliau

Dewiswch yr opsiwn hwn os nad yw'r prynwr yn bwriadu defnyddio'r annedd hon fel ei brif breswylfa.

Gall:

- y perchennog neu westeion, gan gynnwys teulu a ffrindiau, fod yn aros yno ar sail anfasnachol, a/neu
- ei fod yn cael ei osod yn achlysurol am gydnabyddiaeth neu'n rhad ac am ddim

Prynu llety gwyliau

Dewiswch yr opsiwn hwn:

- os yw'r prynwr yn bwriadu gosod yr annedd yn fasnachol fel llety gwyliau neu dymor byr, gan gynnwys fel llety gwyliau wedi'i ddodrefnu, a/neu
- pan fo rhywun yn aros yno am gyfnodau cyfyngedig

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Prynu ar gyfer rhywun arall (gan gynnwys plant dan oed)

Dewiswch yr opsiwn hwn os yw'r prynwr yn prynu ar ran rhywun arall, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- blentyn dan oed, a
- bod y prynwr eisoes yn berchen ar fuddiant mawr mewn annedd arall

Prynu mewn perthynas ag ymddiriedolaeth

Dewiswch yr opsiwn hwn os:

- byddai buddiolwr ymddiriedolaeth noeth neu ymddiriedolaeth setliad yn cael ei drin fel prynwr ar gyfer TTT ac yn atebol am y gyfradd uwch pe byddent yn caffael yr annedd yn uniongyrchol, neu
- fod y prynwr (neu un ohonynt) yn ymddiriedolwr ar gyfer ymddiriedolaeth setliad lle nad oes gan y buddiolwr hawl i:
  - fyw yn yr annedd(anheddau) am oes
  - yr incwm a enillir o'r annedd(anheddau)

Canllawiau pellach o DTTT/8180 ymlaen Aneddiadau ac Ymddiriedolaethau Noeth

Trosglwyddo ecwiti (gan gynnwys morgais)

Dewiswch yr opsiwn hwn os oes trosglwyddiad ecwiti i'r prynwr a'u bod yn berchen ar fuddiant mawr mewn annedd arall.

Arall

Dewiswch yr opsiwn hwn os yw'r trafodiad yn denu cyfradd uwch ond nad yw o dan unrhyw un o'r opsiynau a ddiffiniwyd uchod.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rydym wedi darparu blwch testun er mwyn deall unrhyw resymau nad ydynt wedi'u rhestru.

Pa fath o drafodiad yw hwn?

Dewiswch un opsiwn.

A yw cyfanswm y gydnabyddiaeth ar gyfer y trafodiad yn cynnwys TAW?

Ar gyfer trafodiadau sy'n drafodiadau preswyl yn gyfan gwbl, ni ddylid codi TAW ar y prynwr.

Mae'n bosib y bydd y prynwr yn gorfod talu TAW ar drafodiadau amhreswyl. Os nad ydych yn siŵr a oes TAW yn cael ei chodi neu beidio, dylech gysylltu â'r gwerthwr neu eich asiant.

Os oes TAW yn cael ei chodi ar y prynwr, atebwch 'Ydy'. Fel arall, atebwch 'Nac ydy'.

Beth yw'r buddiant sy'n cael ei drosglwyddo neu ei greu?

Dewiswch un opsiwn.

A oes unrhyw gyfyngiadau, cyfamodau neu amodau sy'n effeithio ar werth y buddiant sy'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cael ei drosglwyddo neu ei ganiatáu?

Os ‘Oes’, rhowch ddisgrifiad byr, er enghraifft:

- mae’r gwerthwr yn cadw'r hawl i brynu'n ôl am lai na gwerth y farchnad
- mae cyfamodau’r les yn cyfyngu ar ddefnydd y siop
- mae amodau deiliadaeth amaethyddol yn berthnasol

A yw'r trafodiad yn unol â chytundeb opsiwn blaenorol?

Atebwch ‘Ydy’ os yw’r trafodiad hwn yn deillio o opsiwn sy’n cael ei arfer.

Mae opsiwn i brynu tir yn hawl rhwymol a roddir gan dirfeddiannwr. Mae’n rhoi hawl i ddarpar brynwr brynu’r tir hwnnw cyn dyddiad penodol. Ym mhob achos arall, atebwch ‘Nac ydy’.

Rhagor o ganllawiau ynglŷn ag opsiynau

Oes gennych chi opiniwn treth ACC ar gyfer y trafodiad hwn?

Atebwch ‘Oes’, os gwnaethoch ofyn i ACC am opiniwn treth, cyn i’r trafodiad ddigwydd, a’n bod ninnau wedi rhoi ymateb ysgrifenedig ffurfiol i chi.

Bydd cyfeirnod yr opiniwn treth i’w weld ar ein hymateb ysgrifenedig ffurfiol. Rhowch y cyfeirnod yn y blwch a ddarperir.

Os na wnaethoch ofyn am opiniwn treth, atebwch ‘Nac oes’.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhagor o wybodaeth am opiniynau treth ACC

A yw'r trafodiad hwn yn rhan o nifer o drafodiadau eraill mewn mannau eraill yn y DU, ond y tu allan i Gymru?

Atebwch 'Ydw' os yw'r canlynol i gyd yn berthnasol:

- mae mwy nag un trafodiad
- mae'r trafodiadau rhwng yr un prynwr a gwerthwr, neu rhwng pobl sy'n gysylltiedig â'r naill neu'r llall ohonynt
- mae'r trafodiadau'n rhan o gynllun neu drefniant sengl neu'n rhan o gyfres o drafodiadau
- mae o leiaf un o'r trafodiadau yn cynnwys tir y tu allan i ffiniau Cymru

Fel arall, atebwch 'Nac ydy'.

Rhagor o wybodaeth am drafodiadau cysylltiol

A yw'r trafodiad yn gysylltiedig ag unrhyw drafodiadau eraill?

Mae angen i chi ateb 'Ydy' os yw'r canlynol i gyd yn berthnasol:

- mae mwy nag un trafodiad
- mae'r trafodiadau rhwng yr un prynwr a gwerthwr, neu rhwng pobl sy'n gysylltiedig â'r naill neu'r llall ohonynt
- mae'r trafodiadau'n rhan o gynllun neu drefniant sengl neu'n rhan o gyfres o drafodiadau

Fel arall, atebwch 'Nac ydy'.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Beth yw cyfanswm y gydnabyddiaeth neu'r gwerth mewn arian neu gyfwerth ariannol, gan gynnwys y TAW a dalwyd ond heb gynnwys rhent, ar gyfer yr holl drafodiadau cysylltiol?

Rhowch swm y gydnabyddiaeth, sy'n drethadwy parthed yr holl drafodiadau cysylltiol, hyd yn oed os yw rhai o'r trafodiadau cysylltiol hynny eisoes wedi cael eu cofnodi ar Ffurflen TTT yn y gorffennol.

Dylai'r swm y byddwch yn ei nodi fel cydnabyddiaeth gynnwys y canlynol lle bo'n briodol:

- cyfanswm y gydnabyddiaeth mewn arian neu gyfwerth ariannol a roddwyd gan y prynwr ym mha ffurf bynnag am y tir neu eiddo
- cyfanswm y gydnabyddiaeth a roddwyd ar gyfer yr aseiniadau
- unrhyw bremiwm
- os oes gofyniad cyfreithiol i dalu TTT ar y gwerth marchnadol, nodwch y gwerth marchnadol
- unrhyw TAW sydd i'w thalu

Os oes les yn gysylltiedig â'r trafodiad, ni ddylai gynnwys rhent.

Rhowch y swm wedi'i dalgrynnu i lawr i'r bunt gyfan agosaf.

Rhagor o wybodaeth am y gydnabyddiaeth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Beth yw Cyfeirnod Unigryw Trafodiad (CUT/ UTRN) y trafodiadau cysylltiol?

Rhowch Gyfeirnod Unigryw Trafodiad (CUT) unrhyw drafodiadau cysylltiol yr ydych eisoes wedi rhoi gwybod i ACC amdanynt yn y gorffennol. Bydd y CUT ar y Dystysgrif TTT.

Os oes mwy nag un trafodiad cysylltiol yn y gorffennol, dylech gynnwys pob CUT.

Os ydych chi'n rhoi gwybod i ni am drafodiadau cysylltiol sydd â'r un dyddiad dod i rym, dylech chi lenwi un ffurflen ar gyfer yr holl drafodiadau. Gallwch ychwanegu tir ychwanegol ar dudalen grynodeb eich ffurflen ddrafft.

Rhagor o ganllawiau ar drafodiadau cysylltiol

Beth yw cyfanswm gwerth presennol net (NPV) y rhent taladwy dros gyfnodau'r holl lesoedd cysylltiol i'r bunt agosaf?

Os nad oes yr un o'r trafodiadau cysylltiol yn cynnwys rhent mewn perthynas â thir amhreswyl neu dir defnydd cymysg, rhowch '£0' yn ateb.

Os oes unrhyw rai o'r trafodiadau cysylltiol yn cynnwys rhent mewn perthynas â thir amhreswyl neu dir defnydd cymysg, rhaid i chi roi cyfanswm gwerth presennol net (NPV) y rhent taladwy dros gyfnodau'r holl lesoedd cysylltiol i'r bunt agosaf. I gyfrifo'r gwerth hwn, bydd angen i chi bennu gwerth presennol net bob trafodiad perthnasol, fel petaent heb fod yn gysylltiedig â'i gilydd, a nodi swm yr holl werthoedd presennol net.

Gallai fod yn ddefnyddiol i chi ddefnyddio ein **cyfrifiannell dreth** i gyfrifo'r gwerth presennol net.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

A oes unrhyw ran o'r gydnabyddiaeth, heblaw rhent, yn dibynnu ar ddigwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol, neu'n amodol arnynt?

Atebwch 'Oes' os oes unrhyw ran o'r gydnabyddiaeth sydd i'w thalu yn ddibynnol neu'n ansicr. Fel arall, atebwch 'Nac oes'.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau dibynnol yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i'r rhain:

- swm ychwanegol o £x i'w dalu os ceir caniatâd cynllunio o fewn x blynedd
- swm ychwanegol o £x i'w dalu, os bydd yr elw yn fwy na x

Rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth ddibynnol

Ydych chi wedi cytuno ag ACC y byddwch yn talu ar sail ohiriedig?

Atebwch 'Ydw' os yw ACC wedi rhoi caniatâd ffurfiol i chi ohirio'r dreth trafodiadau tir sy'n daladwy ar gydnabyddiaeth ddibynnol.

Fel arall, atebwch 'Nac ydw'.

Rhagor o wybodaeth am daliadau sydd wedi cael eu gohirio

A yw'r ffurflen hon yn ffurflen ychwanegol at drafodiad blaenorol?

Atebwch 'Ydy' os ydych chi eisoes wedi cyflwyno ffurflen mewn perthynas â'r trafodiad hwn, a bod y ffurflen hon yn 'ffurflen arall' y mae'n rhaid i'r prynwr ei

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ffeilio dan reolau TTT.

Enghreifftiau:

- mae cyfraddau uwch i'w talu ar ryng-drafodiad, **gweler ein canllawiau ar gyfraddau uwch**
- mae ffurflen eisoes wedi'i chyflwyno mewn perthynas â chaffael opsiwn, a nawr mae ffurflen arall i'w chyflwyno mewn perthynas ag arfer yr opsiwn hwnnw, **gweler rhagor o wybodaeth am opsiynau**
- mae ffurflen wedi cael ei chyflwyno parthed les sy'n rhedeg am gyfnod amhenodol, ac mae ffurflen arall i'w chyflwyno nawr gan fod y les wedi rhedeg am 12 mis arall, **gweler rhagor o wybodaeth am lesoedd**

Nid dyma'r unig enghreifftiau o'r rhesymau dros orfod cyflwyno ffurflen arall.

Os nad yw hon yn ffurflen ychwanegol, atebwch 'Nac ydy'.

Os ydych chi wedi llenwi ffurflen flaenorol ar gyfer y trafodiad, rhowch CUT y ffurflenni hynny

Rhowch Gyfeirnod Unigryw Trafodiad (CUT) unrhyw drafodiadau cysylltiol rydych chi eisoes wedi rhoi gwybod i ACC amdanynt yn y gorffennol. Mae'r CUT ar y Dystysgrif TTT.

Nodwch pam bod angen ffurflen arall

Nodwch yn fyr pam eich bod wedi anfon ffurflen arall atom ni.

Er enghraifft, 'Wedi talu'r brif gyfradd ar eiddo Prynu i Osod; mae prynu prif breswylfa'n golygu bod y gyfradd uwch nawr yn ôl-ddyledus'.

Rhagor o ganllawiau ar drafodiadau cysylltiol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfanswm y TAW sydd wedi'i thalu

Os oes TAW yn cael ei thalu, nodwch faint sydd wedi cael ei thalu, wedi'i dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

Dylai cyfanswm y TAW fod yn gyfanswm o'r canlynol:

1. TAW dyledus ar gydnabyddiaethau heblaw rhent ac
2. (NPV / (100 + Cyfradd TAW Bresennol)) X Cyfradd TAW Bresennol (elfen TAW yr NPV)

I ddangos sut ddylai pwynt 2 gael ei gyfrifo: pe bai'r gyfradd TAW bresennol yn 20% a'r NPV yn £100,000, byddai'r elfen TAW yn £16,666, wedi'i gyfrifo fel a ganlyn: (£100,000 / (100+20)) X 20 = £16,666.

Beth yw ffurf y gydnabyddiaeth?

Mae mathau eraill o gydnabyddiaeth ('tâl') heblaw arian ('arian parod'). Bydd y rhan fwyaf o drafodiadau'n cael eu cyflawni'n llwyr drwy daliad mewn arian. Ond, os oes mathau eraill o gydnabyddiaeth yn berthnasol i'r trafodiad hwn, rhaid i chi ddangos yr holl fathau o gydnabyddiaeth drwy ddewis pob opsiwn priodol.

Mae treth i'w thalu ar gyfanswm yr holl fathau o gydnabyddiaeth mewn arian neu gyfwerth ariannol. Rhaid i gydnabyddiaeth heblaw am gydnabyddiaeth mewn arian gael ei phrisio ar ei werth marchnadol llawn ar y dyddiad y daw'r trafodiad i rym.

Rhagor o ganllawiau ar gydnabyddiaeth drethadwy

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

A yw'r trafodiad hwn yn rhan o werthiant busnes?

Os yw'r tir sy'n cael ei brynu gan y prynwr yn rhan o gytundeb i brynu busnes, rhaid i chi ateb 'Ydy'. Fel arall, atebwch 'Nac ydy'.

A yw'r trafodiad hwn yn cynnwys materion nad ydynt yn drethadwy dan y Dreth Trafodiadau Tir?

Os yw'r prynwr yn prynu busnes gan gynnwys tir, gall fod cydnabyddiaeth wedi'i rhoi mewn perthynas â materion heblaw'r tir (er enghraifft, ewyllys da, stoc).

Os oes cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi ar gyfer unrhyw beth heblaw'r tir, rhaid i chi ateb 'Ydy'.

Fel arall, atebwch 'Nac ydy'.

Nodwch unrhyw fater nad yw'n drethadwy dan y Dreth Trafodiadau Tir

Dewiswch yr hyn y mae'r prynwr wedi rhoi cydnabyddiaeth amdano, mewn perthynas â materion heblaw'r tir. Nid yw'r gydnabyddiaeth a roddir i'r cyfryw faterion yn drethadwy dan y Dreth Trafodiadau Tir.

Swm y gydnabyddiaeth a roddwyd yr ydych wedi'i neilltuo i faterion heblaw am y trafodiad tir

Rhowch swm y gydnabyddiaeth (mewn arian neu gyfwerth ariannol, gan gynnwys TAW) a roddwyd mewn perthynas â'r materion a nodwyd gennych nad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

oeddynt yn drethadwy o dan y Dreth Trafodiadau Tir.

Rhowch y swm wedi'i dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

Ynglŷn â'r cyfrifiad (lle mae les yn gysylltiedig)

Beth yw dyddiad cychwyn y les?

Rhowch y dyddiad cychwyn sy'n cael ei ddangos yn y les. Os yw'r les yn dangos bod y dyddiad cychwyn yn y dyfodol, rhowch y dyddiad yn y dyfodol.

Beth yw dyddiad terfynu'r les?

Rhowch y dyddiad terfynu sy'n cael ei ddangos yn y les. Peidiwch â rhoi'r dyddiad adolygu neu ddyddiad pwyntiau terfynu ('break point date').

Os yw'r trafodiad oherwydd rhoi les gymysg/amhreswyl newydd, lle mae dyddiad cychwyn y les cyn y dyddiad dod i rym, cadarnhewch pa ddyddiad sydd i'w ddefnyddio at ddibenion cyfrifo gwerth presennol net, naill ai ddyddiad dechrau'r les neu'r dyddiad dod i rym.

Y senarios mwyaf cyffredin lle dylid dewis dyddiad cychwyn y les yw:

- lesoedd dal drosodd (gweler **DTTT/4060**), a
- lle mae les yn parhau ar ôl cyfnod penodol, a rhoddir les newydd (cyfeiriwch at **DTTT/4030**).

Ar gyfer y rhan fwyaf o drafodiadau eraill, y 'Cyfrifo o'r dyddiad y daw'r trafodiad i rym' fyddai'r opsiwn priodol

Ynglŷn â'r cyfrifiad (lle mae les amhreswyl yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gysylltiedig)

Beth yw cyfnod y les (blynyddoedd)?

Rhowch nifer y blynyddoedd y mae'r les i fod yn weithredol, gan anwybyddu unrhyw derfynu cynnar posibl.

Os nad yw'r les i fod i redeg am nifer cyfan o flynyddoedd, talgrynnwch i lawr i'r flwyddyn gyfan agosaf.

Er enghraifft, os yw'r les i redeg am 10 mlynedd a 6 mis, rhowch '10'.

Blwyddyn rhent 1

Rhowch swm y rhent sy'n daladwy ar gyfer blwyddyn gyntaf y les. Dylech gynnwys unrhyw rent sy'n ddibynnol ar ddigwyddiadau ansicr.

Rhowch y swm mewn punnoedd sterling. Peidiwch â thalgrynnu i'r bunt agosaf; dangoswch y ceiniogau ar ôl y pwynt degol.

Os nad oes rhent yn daladwy i'r landlord am y flwyddyn gyntaf, rhowch '£0'.

Blwyddyn rhent 2

Rhowch swm y rhent sy'n daladwy ar gyfer ail flwyddyn y les. Dylech gynnwys unrhyw rent sy'n ddibynnol ar ddigwyddiadau ansicr.

Rhowch y swm mewn punnoedd sterling. Peidiwch â thalgrynnu i'r bunt agosaf; dangoswch y ceiniogau ar ôl y pwynt degol.

Os nad oes rhent yn daladwy i'r landlord am yr ail flwyddyn, rhowch '£0'.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Blwyddyn rhent 3

Rhowch swm y rhent sy'n daladwy ar gyfer trydedd flwyddyn y les. Dylech gynnwys unrhyw rent sy'n ddibynnol ar ddigwyddiadau ansicr.

Rhowch y swm mewn punnoedd sterling. Peidiwch â thalgrynnu i'r bunt agosaf, dangoswch y ceiniogau ar ôl y pwynt degol.

Os nad oes rhent yn daladwy i'r landlord am y drydedd flwyddyn, rhowch '£0'.

Blwyddyn rent 4

Rhowch swm y rhent sy'n daladwy ar gyfer pedwaredd flwyddyn y les. Dylech gynnwys unrhyw rent sy'n ddibynnol ar ddigwyddiadau ansicr.

Rhowch y swm mewn punnoedd sterling. Peidiwch â thalgrynnu i'r bunt agosaf, dangoswch y ceiniogau ar ôl y pwynt degol.

Os nad oes rhent yn daladwy i'r landlord am y bedwaredd flwyddyn, rhowch '£0'.

Blwyddyn rent 5

howch swm y rhent sy'n daladwy ar gyfer pumed flwyddyn y les. Dylech gynnwys unrhyw rent sy'n ddibynnol ar ddigwyddiadau ansicr.

Rhowch y swm mewn punnoedd sterling. Peidiwch â thalgrynnu i'r bunt agosaf, dangoswch y ceiniogau ar ôl y pwynt degol.

Os nad oes rhent yn daladwy i'r landlord am y bumed flwyddyn, rhowch '£0'.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhent perthnasol

Rhowch y ‘rhent perthnasol’.

Y rhent perthnasol yw'r rhent blynyddol cyfartalog sy’n daladwy ar draws cyfnod llawn y les.

Rhagor o ganllawiau ar rent perthnasol

Rhowch y swm mewn punnoedd sterling. Peidiwch â thalgrynnu i'r bunt agosaf, dangoswch y ceiniogau ar ôl y pwynt degol.

Rhent uchaf sy’n daladwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn olynol yn y pum mlynedd gyntaf

Rhowch y swm uchaf o rent sy’n daladwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn olynol o fewn pum mlynedd gyntaf cytundeb y les.

Sylwch nad yw hwn o anghenraid y gwerth uchaf a roddwyd gennych ar gyfer y blynyddoedd rhent a ddarparwyd.

Enghraifft: cytundeb les sydd i redeg am 2 flynedd

	Rhent
Blwyddyn 1: 6 mis cyntaf	£0
Blwyddyn 1: ail 6 mis	£10,000
Blwyddyn 2: 6 mis cyntaf	£10,000

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

	Rhent
Blwyddyn 2: 6 mis olaf	£0

Yn yr enghraifft hon, y rhent ar gyfer blwyddyn 1 yw £10,000 ac mae'r rhent ar gyfer blwyddyn 2 hefyd yn £10,000. Ond, y rhent uchaf sy'n daladwy mewn unrhyw gyfnod olynol o 12 mis yw £20,000.

Rhowch y swm mewn punnoedd sterling. Peidiwch â thalgrynnu i'r bunt agosaf, dangoswch y ceiniogau ar ôl y pwynt degol.

Beth yw'r gwerth presennol net?

Gallai fod yn ddefnyddiol i chi ddefnyddio ein **cyfrifiannell dreth** i'ch helpu i gyfrifo hyn.

Ynglŷn â'r cyfrifiad (pob trafodiad)

Beth yw dyddiad y contract?

Rhaid defnyddio'r fformat dd/mm/bbbb ar gyfer y dyddiad, er enghraifft '31/01/2023' a rhaid iddo fod yn ddyddiad heddiw neu ddyddiad yn y gorffennol. Gallwch roi dyddiad yn y dyfodol neu ei adael yn wag i ddangos swm tebygol o dreth. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi dyddiad cywir ar y cam cyflwyno.

Os nad oes dyddiad contract ar gyfer y trafodiad, defnyddiwch y dyddiad dod i rym.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Beth yw dyddiad dod i rym y trafodiad?

Dyddiad dod i rym trafodiad tir fel arfer yw'r dyddiad y cwblheir y trafodiad; nid y dyddiad cyfnewid contractau. Ond, mae rheolau hefyd ynglŷn â 'chyflawni'n sylweddol' sy'n golygu y gallai TTT fod yn ddyledus yn gynt.

Rhagor o ganllawiau ar 'gyflawni'n sylweddol'

Rhaid i'r dyddiad fod yn y fformat dd/mm/bbbb, er enghraifft 01/04/2018. Gallwch roi dyddiad yn y dyfodol neu ei adael yn wag i ddangos y swm tebygol o dreth. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi dyddiad cywir ar y cam cyflwyno.

Ydych chi'n hawlio rhyddhad treth?

Atebwch 'Ydw' os yw'r prynwr yn hawlio unrhyw **ryddhad treth sydd ar gael** o dan reolau TTT.

Os nad yw'r prynwr yn hawlio rhyddhad, atebwch 'Nac ydw' ac fe fydd yn mynd â chi ymlaen i'r adran nesaf 'Beth yw cyfanswm y gydnabyddiaeth mewn arian neu werth arian, gan gynnwys unrhyw TAW sy'n daladwy mewn gwirionedd, ar gyfer y trafodiad (gan gynnwys unrhyw bremiwm)?'

Nid oes rhyddhad i brynwyr tro cyntaf ar gael yng Nghymru.

Dylech gofio nad yw rhyddhad yr un fath ag esemptiad. Os yw trafodiad yn **esempt rhag TTT**, does dim angen ffeilio ffurflen dreth o gwbl.

Pa ryddhad treth ydych chi'n ei hawlio?

Dewiswch bob rhyddhad mae'r prynwr yn ei hawlio.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Codau rhyddhad ar gyfer Treth Trafodiadau Tir

Cod	Disgrifiad o'r rhyddhad
001	Caffael anheddau penodol
002	Rhyddhad i elusennau
003	Rhyddhad grŵp
004	Tai cymdeithasol
005	Cyn cwblhau - is–werthiant cymwys
006	Cyn cwblhau - aseinio hawliau
007	Rhyddhad gwerthu ac adlesu
008	APFR: ar les i berson
009	APFR: wed'i ail-werthu i berson
010	AFIBR: cyntaf ac ail
011	Gwasanaeth iechyd a chyrff cyhoeddus
021	Corffori LLP
022	Atgyfansoddi
023	Cymdeithasau adeiladu, cymdeithasau cyfeillgar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cod	Disgrifiad o'r rhyddhad
024	OEIC
025	Pryniant gorfodol
026	Rhwymedigaethau cynllunio
027	Masnachwr eiddo
028	Adleoli cyflogaeth
029	Cyd-berchnogaeth
031	Rhyddhad a gynhwysir yn atodlen 22 DTTT a rhyddhad diplomyddol
050	Rhannol - Anheddau lluosog
051	Rhannol - Caffael penodol o anheddau
052	Rhannol - Rhyddhad i elusennau
053	Rhannol - Cyn cwblhau
054	Rhannol - Rhyddhad caffael
055	Rhannol - Masnachwr eiddo
056	Rhannol - Adleoli cyflogaeth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cod	Disgrifiad o’r rhyddhad
057	Rhannol - Hawliau ar y cyd
058	Rhannol - Cydnabyddiaeth ddibynnol
059	Rhannol - Cyd-berchnogaeth

A yw rhyddhad yn cael ei hawlio ar ran o'r trafodiad yn unig?

Os nad yw'r rhyddhad yn lleihau swm y gydnabyddiaeth sy’n drethadwy dan y Dreth Trafodiadau Tir i £0, atebwch ‘Ydy’. Fel arall, atebwch 'Nac ydy’.

Rhowch y swm sy’n ar ôl yn drethadwy

Rhwch swm y gydnabyddiaeth (mewn arian neu gyfwerth ariannol, gan gynnwys TAW) sy’n dal yn drethadwy dan y Dreth Trafodiadau Tir ar ôl i bob rhyddhad perthnasol gael ei ystyried.

Rhowch y swm wedi’i dalgrynnu i lawr i’r bunt agosaf.

Faint o anheddau sy’n cael eu prynu?

Nodwch gyfanswm yr anheddau a brynwyd fel rhan o'r pryniant hwn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Beth yw’r gydnabyddiaeth drethadwy a roddwyd am yr anheddau a brynwyd?

Rhowch y swm wedi’i dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

Rhagor o ganllawiau ar gydnabyddiaeth drethadwy

A oes unrhyw un o’r anheddau a brynwyd yn is-anheddau?

Atebwch 'Ydy' os oes unrhyw is-anheddau. Fel arall, atebwch 'Nac ydy’.

Rhagor o ganllawiau ar is-anheddau

Faint o’r anheddau sy’n is-anheddau?

Rhowch nifer yr is-anheddau.

Beth yw’r gydnabyddiaeth drethadwy a roddwyd am yr is-annedd/is-anheddau?

Rhowch y swm wedi’i dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

Rhagor o ganllawiau ar gydnabyddiaeth drethadwy

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

A yw’r trafodiad yn cynnwys unrhyw dir arall, megis tir amhreswyl?

Atebwch 'Ydy' os oes unrhyw dir arall. Fel arall, atebwch 'Nac ydy’.

Beth yw'r gydnabyddiaeth drethadwy a roddwyd am y tir arall?

Rhowch y swm wedi’i dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

Rhagor o ganllawiau ar gydnabyddiaeth drethadwy

Beth yw cyfanswm y gydnabyddiaeth mewn arian neu gyfwerth ariannol, gan gynnwys unrhyw TAW sy'n daladwy mewn gwirionedd, ar gyfer y trafodiad (gan gynnwys unrhyw bremiwm)?

Rhowch gyfanswm y gydnabyddiaeth sy’n cael ei rhoi ar gyfer y rhan o'r trafodiad y mae TTT yn daladwy arni (peidiwch â chynnwys unrhyw ran o'r trafodiad y mae SDLT yn daladwy arni yn Lloegr neu’r LBTT yn yr Alban.)

Dylai'r swm y byddwch yn ei nodi fel cydnabyddiaeth gynnwys y canlynol lle bo’n briodol:

- cyfanswm y gydnabyddiaeth mewn arian neu gyfwerth ariannol a roddwyd gan y prynwr ym mha ffurf bynnag, am y tir neu eiddo
- cyfanswm y gydnabyddiaeth a roddwyd ar gyfer yr aseiniad
- unrhyw bremiwm
- os oes gofyniad cyfreithiol i dalu TTT ar y gwerth marchnadol, nodwch y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwerth marchnadol
- unrhyw TAW sydd i'w thalu mewn gwirionedd

Os oes les yn gysylltiedig â'r trafodiad, ni ddylai gynnwys rhent.

Rhowch y swm wedi'i dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

Rhagor o ganllawiau ar gydnabyddiaeth

Cyfrifo treth

Os ydych chi'n anghytuno â'r cyfrifiad TTT a gynhyrchwyd gan y system neu'n dymuno dewis ac yn penderfynu nodi swm gwahanol, gofynnir rhagor o gwestiynau i chi.

Yn yr achos hwn, dewiswch y rheswm priodol:

- Trafodiad partneriaeth pan fo''r dreth yn cael ei chyfrifo drwy ddefnyddio swm y cyfrannau is
- Wedi'i addasu ar gyfer rhyddhad gorgyffwrdd ar drafodiad les
- Rheolau trosiannol yn berthnasol
- Arall

Defnyddiwch 'reolau trosiannol yn berthnasol' os ydych yn ffeilio ffurflen dreth lle'r ydych yn dewis i'r trefniadau trosiannol fod yn berthnasol oherwydd y newidiadau i'r prif gyfraddau a bandiau preswyl TTT a wnaed ar 10 Hydref 2022.

Efallai y byddwch yn gallu gwneud y dewis hwn pan:

- fydd contractau wedi'u cyfnewid cyn 10 Hydref 2022 ond heb eu cwblhau, ac
- nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r trafodiad rhwng cyfnewid a chwblhau

Defnyddiwch 'reolau trosiannol yn berthnasol' os ydych yn ffeilio ffurflen dreth lle mae'r eithriad i'r newidiadau i gyfraddau a bandiau TTT a wnaed ym mis Rhagfyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2020 yn berthnasol. Mae hyn pan mae contractau wedi'u cyfnewid cyn 22 Rhagfyr ond heb eu cwblhau a gellir defnyddio'r cyfraddau treth blaenorol os nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r trafodiad rhwng cyfnewid a chwblhau.

Rhagor o ganllawiau ar drafodiadau partneriaeth

Rhagor o ganllawiau ar ryddhad gorgyffwrdd ar drafodiad les

Canllawiau pellach ar reolau trosiannol ar gyfer newidiadau prif gyfraddau Hydref 2022

Eglurhad o'r cyfrifiad

Rhowch fanylion sut y gwnaethoch gyfrifo'r dreth ar y ffigwr newydd.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llenwi-ffurflen-treth-trafodiadau-tir-cynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.